

# Cyfarwyddiadau'r gêm (Fersiwn awyr agored)

## Nod:

Mae'r gêm yn cyflwyno rhai o'r bygythiadau i gylch bywyd y broga. Gêm o lwc yw hi lle mae'r timau'n ceisio cyrraedd diwedd llwybr y broga gyda mwy o'u grifft (wyau) yn 'fyw' na'r timau eraill.

## Paratoi:

- Chwyddwch fwrdd y gêm i faint A3 neu defnyddiwch y taflenni gwaith mwy gweledol *Camau'r gêm*.
- Torrwch adrannau allan a'u gludo ar hen gryno ddisgiau.
- Rhowch nhw mewn trefn ar lwybr trwy dir yr ysgol. (Cofiwch eu casglu wedyn i'w defnyddio eto.)

## Mae ar bob fîm o 2 neu 3 chwaraewr angen:

- darn o arian
- 2 botyn iogwrt
- 20 o bys wedi sychu.

## Sut i chwarae:

- Gallwch chwarae mewn timau bach o 2 neu 3 chwaraewr.
- Mae pob fîm yn gosod 20 o bys wedi sychu yn y potyn iogwrt 'byw'. Griffth neu wyau broga yw'r pys sych.
- Bydd y potyn iogwrt yn 'fynwent' grifft.
- Dechreuwch ar ddechrau'r llwybr. Cymerwch eich tro i daflu'r darn o arian. Symudwch ymlaen 1 cerdyn os cewch ben, 2 os cewch gynffon, a darllenwch y cerdyn gêm nesaf. Os bydd wayu'n marw, trosglwyddwch nhw i'r potyn 'mynwent'.
- Y fîm buddugol yw'r un sydd â mwy o wyau 'byw' na'r un fîm arall ar y diwedd.

**Gyda'ch gilydd, trafodwch beth oedd y bygythiadau.  
Beth allwn ni ei wneud i helpu cylch bywyd y broga?**